

Tynnu plac oddi ar rydweliâu sydd wedi culhau yn y coesau gan ddefnyddio cathetr gyda llafn bach sy'n troi

*Mae arweiniad
Techlechydd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau newydd
mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio cathetr gyda llafn bach sy'n troi yn y GIG i drin pobl sydd â rhydweliâu sydd wedi culhau yn y coesau. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch

helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 8.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Yn benodol, nid oes digon o dystiolaeth am y risg i'r driniaeth beri i ronnynau gylchdroi yn y llif gwaed, gyda risgiau posibl o drawiad a strôc. Os bydd meddyg am ddefnyddio'r driniaeth hon, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynghylch pa mor dda y mae'n gweithio, ynghyd â'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â risgiau posibl. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth. Dylid rhoi'r daflen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i'r claf fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith ar gyfer monitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

Mae NICE wedi annog gwaith ymchwil pellach ar y driniaeth hon ac efallai y bydd yn ei hadolygu os bydd rhagor o dystiolaeth ar gael.

Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer rhydweliâu sydd wedi culhau yn y coesau. Dylai eich tîm gofaliachyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.

Tynnu plac o rydweliâu sydd wedi culhau yn y coesau gan ddefnyddio llafn bach sy'n troi

Yr enw meddygol am y driniaeth hon yw 'Atherectomi drwy'r croen o friwiau rhydweliol camedd y forddwyd gyda dyfeisiau torri plac'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Gall y prif rydweliâu yn y coesau gulhau a thewhau oherwydd dyddodion brasterog (placiau). Yr enw meddygol am hyn yw clefyd rhydweliol perifferol (PAD). Y symptom mwyaf cyffredin yw poen neu ddolur yn y goes yn enwedig wrth gerdded neu wneud ymarfer corff, sy'n digwydd am nad yw'r cyhyrau yn cael digon o waed. Wrth i'r cyflwr waethygu, gall pobl gael poen wrth ymlacio. Mewn achosion difrifol gall wlsrau neu fadredd ar y droed ddatblygu, ac os felly efallai y bydd angen torri'r goes i fwrdd.

Yn y driniaeth hon, defnyddir cathetr arbennig gyda llafn sy'n troi y tu mewn i'r rhydweliâu sydd wedi culhau i dynnu plac sydd wedi cronni sy'n cyfyngu llif y gwaed. Caiff y driniaeth ei chyflawni o dan anesthetig lleol. Rhoddir nodwydd i mewn i rydweli'r forddwyd yn y werddyr drwy doriad bach yn y croen. Caiff gwifren dywys denau ei gwthio drwy'r nodwydd er mwyn cyrraedd y rhydweli. Caiff tiwb arbennig a elwir yn gathetr, sy'n cynnwys llafn miniog sy'n troi, ei wthio dros y wifren dywys i mewn i'r rhydweli a'i osod ar y man sy'n culhau. Mae'r llafn yn torri'r plac ymaith, sy'n cael ei gasglu ar ben y ddyfais a'i waredu. Mae sawl math o gathetr ar gael ar gyfer y driniaeth hon a gall eich arbenigwr roi rhagor o wybodaeth i chi am y ffyrdd gwahanol y maent yn gweithio.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig y driniaeth hon i chi, dylai ddweud wrthyfch fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau yn ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael
y driniaeth hon, cael
triniaeth wahanol,
neu beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar 7 astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Nododd astudiaeth o 601 o gleifion fod y driniaeth wedi llwyddo i dynnu 95% o blaciau. Ar ôl 12 mis, nid oedd 80% o'r cleifion wedi gorfod cael y driniaeth eto.

Dangosodd astudiaeth o 275 o gleifion a gafodd y driniaeth fod 92% o gleifion wedi gallu osgoi cael torri eu coes i ffwrdd pan gawsant eu hasesu ar ôl 18 mis. Nododd astudiaeth wahanol o 60 o gleifion fod pedwar claf wedi gorfod cael torri eu coes i ffwrdd bum mis ar ôl cael y driniaeth ar gyfartaledd.

Mewn dwy astudiaeth a nododd fod y symptomau wedi gwella, dangosodd astudiaeth o 34 o gleifion (36 o driniaethau) fod y symptomau wedi gwella mewn 27 allan o 36 o driniaethau ar ôl mis, ac mewn 12 allan o 22 o driniaethau ar ôl 12 mis. Dangosodd astudiaeth o 16 o gleifion (17 o goesau) fod 12 o goesau yn rhydd o unrhyw symptomau ar ôl mis a bod saith yn rhydd o unrhyw symptomau o hyd ar ôl chwe mis.

Dangosodd yr astudiaeth o 275 o gleifion ar ôl 18 mis, fod 53% o'r rhydwelïau a gafodd eu trin yn agored o hyd.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai nodau'r driniaeth oedd lledaenu'r rhydwelïau a oedd wedi culhau a'u

cadw ar agor, sicrhau nad oes raid torri'r goes i ffwrdd, lleihau poen yn y goes, gwella ansawdd bywyd a gwella wserau.

Risgiau a phroblemau posibl

Mewn tair astudiaeth yn cynnwys 1346 o driniaethau, cafwyd saith torthen waed.

Yn yr astudiaeth o 601 o gleifion (1258 o driniaethau), cafwyd twll yn wal y rhydweli mewn deg triniaeth. Ni chafwyd unrhyw dyllau yn wal y rhydweli mewn astudiaethau o 60 a 131 o driniaethau.

Yn yr astudiaeth o 34 o gleifion, roedd angen i ddau glaf gael llawdriniaeth bellach oherwydd cymhlethdodau: un i drin torthen waed ac un i drin pibell waed wan a oedd wedi chwyddo.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr o ran egwyddor fod cymhlethdodau yn cynnwys torthenni gwaed yn ffurfio, colli coes, gwaedu a chymhlethdodau sy'n gysylltiedig â dyfeisiau.

Rhagor o wybodaeth am glefyd rhydweliol perifferol

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar glefyd rhydweliol perifferol, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/AboutGuidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud ag 'Atherectomi drwy'r croen o friwiau rhydweliol camedd y forddwyd gyda dyfeisiau torri plac'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG251

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8361-2

N2497 1P February 11

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2011. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.